O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1823 (Cy. 265)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch gofynion ymweld ar gyfer plant penodedig sydd, ar ôl eu collfarnu o drosedd gan lys, dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu y gwneir yn ofynnol eu bod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r amgylchiadau, at ddibenion adran 97(1)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), sy'n peri bod plentyn yn peidio â derbyn gofal gan awdurdod lleol (digwyddiad a fydd yn dod â phlant o'r fath wedyn o fewn cwmpas y ddyletswydd a nodir yn adran 97(3) o Ddeddf 2014 a'r Rheoliadau hyn).

Mae adran 97(3) o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol i ymweld â phlentyn o'r fath, cynnal cyswllt â'r plentyn, a darparu cyngor a chymorth arall iddo.

Yr amgylchiadau a bennir gan reoliad 3 yw bod plentyn, a fu'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, ond a beidiodd â derbyn gofal oherwydd naill ai bod y plentyn, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys, dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu y gwnaed yn ofynnol fod y plentyn yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

Bydd plant sydd, ar ôl eu collfarnu o drosedd gan lys, yn colli eu statws fel plant sy'n derbyn gofal o ganlyniad i'w rhoi dan gadwad neu ei gwneud yn ofynnol eu bod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, yn dod o fewn disgrifiad a nodir ym mharagraff (a) neu (b) isod—

(a) plentyn a oedd, yn union cyn ei roi dan gadwad, yn derbyn gofal yn rhinwedd darparu

llety iddo gan yr awdurdod lleol o dan adran 76 o Ddeddf 2014; neu

(b) plentyn sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac a drinnid fel plentyn yn derbyn gofal yn unol ag adran 104 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ("Deddf 2012") (yn rhinwedd ei roi ar remánd i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid yn unol ag adran 92 o Ddeddf 2012).

Mae rheoliad 4 yn pennu, at ddibenion adran 97(1)(c) o Ddeddf 2014, dau gategori o blant (a bennir yn unol ag adran 97(2)), y bydd gan awdurdod lleol ddyletswyddau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 97(3) o Ddeddf 2014 ac o dan y Rheoliadau hyn. Mae cymhwyso rheoliad 4 yn ddarostyngedig i eithriadau, a nodir yn rheoliad 2(2).

Bydd y plant a eithrir o'r categorïau a bennir yn rheoliad 4 oherwydd eu bod yn dod o fewn disgrifiad a nodir yn is-baragraffau (a) i (e) o reoliad 2(2) yn cael ymweliadau a chymorth gan yr awdurdod lleol (neu awdurdod lleol yn Lloegr) sy'n gyfrifol am ddiwallu eu hanghenion yn unol â gofynion statudol eraill.

Yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 2(2), bydd y categorïau o blant a bennir yn rheoliad 4 yn dod o fewn disgrifiad a nodir ym mharagraff (a) neu (b) isod—

(a) y categori cyntaf yw plentyn sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys, a roddwyd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu y gwneir yn ofynnol ei fod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd,

(b) yr ail gategori yw plentyn sydd, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys, dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu y gwneir yn ofynnol ei fod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd a leolir yng Nghymru.

Mae rheoliad 5 yn pennu, at ddibenion adran 97(2) o Ddeddf 2014, pa awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau a osodir o dan adran 97 ac o dan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn categori a bennir yn rheoliad 4**.**

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag amlder yr ymweliadau; rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol drefnu i'w gynrychiolydd ymweld â'r plentyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl rhoi'r plentyn dan gadwad, neu ei gwneud yn ofynnol gyntaf ei fod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, ac wedyn pa bryd bynnag y gofynnir yn rhesymol iddo wneud hynny gan bersonau penodedig, er enghraifft, y

plentyn, rhieni’r plentyn, neu’n unol ag argymhellion a wneir gan y cynrychiolydd.

Mae rheoliad 7 yn darparu bod rhaid i’r cynrychiolydd, yn ystod pob ymweliad, siarad yn breifat gyda’r plentyn, oni fydd yn amhriodol gwneud hynny neu fod y plentyn yn gwrthod gwneud hynny.

Mae rheoliad 8 yn gosod dyletswydd ar y cynrychiolydd i ddarparu adroddiad am bob ymweliad, ac yn pennu’r hyn y mae’n rhaid ei gynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Mae’n darparu hefyd fod rhaid rhoi copi o’r adroddiad i’r plentyn, oni fyddai’n amhriodol gwneud hynny, ac i bersonau penodol eraill.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyletswydd yr awdurdod lleol cyfrifol o dan adran 97(3)(b) o Ddeddf 2014 i drefnu bod cyngor a chymorth ar gael i’r plentyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1823 (Cy. 265)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015

*Gwnaed* *21 Hydref 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *23 Hydref 2015*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 97(1)(b) ac (c), (2) a (4) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "A" ("*A*") yw plentyn—

(a) a fu'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ond a beidiodd â derbyn gofal ganddo(**3**) o ganlyniad i'r amgylchiadau a ragnodir yn rheoliad 3, neu

(b) yn ddarostyngedig i reoliad 2(2), plentyn sy'n dod o fewn categori a bennir yn rheoliad 4;

(**1**) 2014 dccc 4.

(**2**) Gweler adran 197(1) am y diffiniadau o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

(**3**) Ar gyfer ystyr plentyn sy'n "derbyn gofal" gan awdurdod lleol, gweler adran 197(2) o Ddeddf 2014; diffinnir "awdurdod lleol" ac "awdurdod lleol yn Lloegr" yn adran 197(1) o Ddeddf 2014.

ystyr “awdurdod lleol cyfrifol” (“*responsible local authority*”) yw—

(a) pan fo A yn dod o fewn rheoliad 3, yr awdurdod lleol a oedd yn gofalu am A yn union cyn rhoi A dan gadwad,

(b) pan fo A yn dod o fewn rheoliad 4—

(i) os yw A yn preswylio fel arfer yng Nghymru, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae A yn preswylio ynddi fel arfer, a

(ii) mewn unrhyw achos arall, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir ynddi’r sefydliad y mae A dan gadwad ynddo neu’r fangre y mae’n ofynnol bod A yn preswylio ynddi;

ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Plant 1989(**1**);

ystyr “Deddf 2012” (“*the 2012 Act*”) yw Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012(**2**);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yn yr ystyr a roddir i “bank holiday” gan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);

ystyr “R” (“*R*”) yw cynrychiolydd yr awdurdod cyfrifol, sy’n ymweld ag A yn unol â threfniadau a wneir gan yr awdurdod o dan adran 97 o Ddeddf 2014;

ystyr “rheolwr achos tîm troseddwyr ifanc perthnasol” (“*relevant youth offending team case manager*”) yw’r person o fewn tîm troseddwyr ifanc yr awdurdod lleol(**4**) sy’n rheoli achos A;

ystyr “sefydliad” (“*institution*”) yw llety cadw ieuenctid(**5**) neu garchar(**6**);

mae i “tîm troseddwyr ifanc” (“*youth offending team*”) yr ystyr a roddir yn adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

(2) Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gymwys i blentyn sydd—

---

(**1**) 1989 p. 41.
(**2**) 2012 p. 10.
(**3**) 1971 p. 80.
(**4**) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) i sefydlu un neu ragor o dimau troseddwyr ifanc ar gyfer ei ardal.
(**5**) Diffinnir “llety cadw ieuenctid” yn adran 188(1) o Ddeddf 2014.
(**6**) Diffinnir “carchar” yn adran 188(1) a 197(1) o Ddeddf 2014.

(a) yng ngofal awdurdod lleol yng Nghymru(**1**);

(b) yng ngofal awdurdod lleol yn Lloegr(**2**);

(c) yn berson ifanc categori 2(**3**);

(d) yn blentyn perthnasol yn yr ystyr a roddir i "relevant child" at ddibenion adran 23A o Ddeddf 1989(**4**); neu

(e) yn blentyn a fu gynt yn derbyn gofal ac, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys, sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar neu sy'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, ac, yn union cyn ei gollfarnu, y darparwyd llety iddo gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 20 o Ddeddf 1989(**5**).

**Amgylchiadau a bennir at ddibenion adran 97(1)(b) o Ddeddf 2014**

**3.** Yr amgylchiadau a ragnodir at ddibenion adran 97(1)(b) o Ddeddf 2014(**6**) yw bod plentyn, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys—

---

(**1**) *Gweler* adran 197(3) o Ddeddf 2014 sy'n darparu bod "cyfeiriad yn y Ddeddf hon at blentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol yn gyfeiriad at blentyn sydd o dan ei ofal yn rhinwedd gorchymyn gofal (o fewn yr ystyr a roddir i "care order" gan Neddf Plant 1989)". Gwneir darpariaeth ar gyfer plant yn derbyn gofal sydd dan gadwad, neu y gwneir yn ofynnol eu bod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 [O.S.2015/ 1818 (Cy. 261)).

(**2**) *Gweler* adran 105(1) o Ddeddf 1989, sy'n darparu bod unrhyw gyfeiriad at blentyn sydd "in the care of a local authority" yn gyfeiriad at blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod yn rhinwedd "care order" a bod i "care order" yr ystyr a roddir gan adran 31(11) o Ddeddf 1989. Mae gan awdurdod lleol yn Lloegr ddyletswyddau mewn perthynas â phlant yn eu gofal sydd dan gadwad, yn rhinwedd Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010 (O.S. 2010/959).

(**3**) Diffinnir "person ifanc categori 2" yn adran 104(2) o Ddeddf 2014. Mae gan yr awdurdod lleol cyfrifol ddyletswyddau mewn perthynas â pherson ifanc categori 2 sydd dan gadwad mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu y gwneir yn ofynnol ei fod yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, o dan Reoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 [O.S.2015/ 1820 (Cy. 262)).

(**4**) Mae adran 23A(2) o Ddeddf 1989 yn diffinio "relevant child" ac adran 23B o Ddeddf 1989 yn pennu swyddogaethau ychwanegol yr awdurdod lleol cyfrifol yn Lloegr mewn cysylltiad â phlant perthnasol o'r fath. Mae gan awdurdod lleol yn Lloegr ddyletswyddau tuag at blant perthnasol sydd dan gadwad yn rhinwedd Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Lloegr) 2010 (O.S. 2010/2571).

(**5**) Mae gan yr awdurdod lleol cyfrifol yn Lloegr ddyletswyddau mewn perthynas â phlentyn o'r fath a fu gynt yn derbyn gofal, o dan Reoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal dan Gadwad (Lloegr) 2010 (O.S. 2010/2797).

(**6**) Mae adran 97(3) o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau bod cynrychiolydd yr awdurdod yn ymweld â phlentyn y mae'r adran yn gymwys iddo, a threfnu bod cyngor priodol a chymorth arall ar gael i blentyn y mae'r adran yn gymwys iddo.

(a) dan gadwad, yn unol â gorchymyn gan lys, mewn llety cadw ieuenctid(**1**) neu mewn carchar(**2**), neu

(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd(**3**).

**Categorïau a bennir at ddibenion adran 97(1)(c) o Ddeddf 2014**

**4.**—(1) Y categorïau a bennir at ddibenion adran 97(1)(c) o Ddeddf 2014 yw'r canlynol—

(a) plentyn, sy'n preswylio fel arfer(**4**) yng Nghymru, sydd, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys—

(i) dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid, neu mewn carchar, neu

(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd; a

(b) plentyn sydd, ar ôl ei gollfarnu o drosedd gan lys,—

(i) dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu mewn carchar yng Nghymru, neu

(ii) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd yng Nghymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn disgrifiad a nodir yn is-baragraffau (a) i (e) o reoliad 2(2).

---

(**1**) Diffinnir "llety cadw ieuenctid" yn adran 188(1) o Ddeddf 2014 fel—
(a) cartref diogel i blant,
(b) canolfan hyfforddi ddiogel,
(c) sefydliad troseddwyr ifanc,
(d) llety sy'n cael ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 at y diben o gyfyngu ar ryddid plant,
(e) llety, neu lety o ddisgrifiad, a bennir am y tro drwy orchymyn o dan adran 107(1)(e) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (llety cadw ieuenctid at ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi).
Ystyr "cartref diogel i blant" yw cartref plant a ddefnyddir at y diben o gyfyngu ar ryddid ac a gymeradwywyd at y diben hwnnw, y cofrestrwyd person cysylltiad ag ef o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000;
mae i "canolfan hyfforddi ddiogel" yr ystyr a roddir i "secure training centre" yn adran 43(1)(d) o Ddeddf Carchardai 1952; ac
mae i "sefydliad troseddwyr ifanc" yr ystyr a roddir i "young offender institution" yn adran 43(1)(aa) o'r Ddeddf honno.

(**2**) Diffinnir "carchar" yn adrannau 188(1) a 197(1) o Ddeddf 2014 fel term sy'n meddu'r ystyr a roddir i "prison" yn Neddf Carchardai 1952 (p. 52) (gweler adran 53(1) o'r Ddeddf honno).

(**3**) Diffinnir "mangre a gymeradwywyd" yn adran 188(1) o Ddeddf 2014 fel term sy'n meddu'r ystyr a roddir i "approved premises" gan adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p. 21).

(**4**) Mae adran 194 ac adran 186(2) o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch statws preswylfa arferol plentyn sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu sy'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

### Yr awdurdod lleol a bennir at ddibenion adran 97(2) o Ddeddf 2014

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn pennu, yn unol ag adran 97(2) o Ddeddf 2014, yr awdurdod lleol y mae'n rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau a osodir gan adran 97 o Ddeddf 2014 neu o dan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn categori a bennir yn rheoliad 4.

(2) Pan fo plentyn yn dod o fewn categori a bennir yn—

(a) rheoliad 4(1)(a), yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer yn ei ardal(**1**);

(b) rheoliad 4(1)(b), yr awdurdod lleol y lleolir ynddo'r llety cadw ieuenctid, carchar neu fangre a gymeradwywyd.

### Amlder ymweliadau

**6.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol sicrhau bod R yn ymweld ag A—

(a) o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl rhoi A dan gadwad gyntaf, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol; a

(b) wedi hynny pa bryd bynnag y gofynnir yn rhesymol iddo ymweld gan—

(i) A,

(ii) aelod o staff y sefydliad y mae A dan gadwad ynddo, neu'r fangre a gymeradwywyd lle mae A yn preswylio,

(iii) unrhyw riant A, neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am A, neu

(iv) y rheolwr achos tîm troseddwyr ifanc perthnasol.

(2) Caiff yr awdurdod lleol cyfrifol drefnu i R wneud ymweliadau ychwanegol ag A, gan roi sylw i unrhyw argymhelliad a wneir gan R yn unol â rheoliad 8(1)(b).

### Cynnal yr ymweliadau

**7.** Yn ystod pob ymweliad, rhaid i R siarad gydag A yn breifat oni bai—

(a) bod A yn gwrthod, ac yntau mewn oedran digonol a chyda dealltwriaeth ddigonol i wneud hynny,

(b) bod R o'r farn y byddai gwneud hynny'n amhriodol, o ystyried oedran a dealltwriaeth A, neu

---

(**1**) Mae adran 194 ac adran 186(2) o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch statws preswylfa arferol plentyn sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid neu garchar, neu sy'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

(c) bod R yn analluog i wneud hynny.

**Adroddiadau am ymweliadau**

**8.**—(1) Rhaid i R ddarparu adroddiad ysgrifenedig am bob ymweliad, a rhaid i'r adroddiad gynnwys—

(a) asesiad R, ar ôl ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau A, ynglŷn ag a yw llesiant A yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo'n ddigonol tra bo dan gadwad neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd,

(b) argymhellion R ynglŷn ag amseriad ac amlder unrhyw ymweliadau pellach gan R,

(c) unrhyw drefniadau eraill y tybia R y dylid eu gwneud er mwyn hyrwyddo cyswllt rhwng A a theulu A, neu er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant A,

(d) asesiad R o'r modd y dylai llesiant A gael ei ddiogelu a'i hyrwyddo'n ddigonol ar ôl ei ryddhau o gadwad, neu ddiddymu'r gofyniad i breswylio mewn mangre a gymeradwywyd, sef yn benodol—

(i) a fydd angen i'r awdurdod lleol cyfrifol, awdurdod lleol arall, neu awdurdod lleol yn Lloegr ddarparu llety i A, a

(ii) a ddylai unrhyw wasanaethau eraill gael eu darparu, gan yr awdurdod lleol cyfrifol neu awdurdod lleol arall wrth arfer eu dyletswyddau o dan Ddeddf 2014 neu Ddeddf 1989, neu gan awdurdod lleol yn Lloegr o dan Ddeddf 1989.

(2) Rhaid i R, wrth wneud unrhyw asesiad o dan baragraff (1), ac eithrio pan nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, neu pan nad yw gwneud hynny yn gyson â llesiant A, gymryd i ystyriaeth safbwyntiau—

(a) unrhyw riant A, neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am A, a

(b) aelodau priodol o staff y sefydliad y mae A dan gadwad ynddo, neu o staff y fangre a gymeradwywyd y mae A yn preswylio ynddi.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol roi copi o'r adroddiad i—

(a) A, oni fyddai'n amhriodol gwneud hynny,

(b) person sy'n dod o fewn paragraff (2)(a), ac eithrio pan na fyddai gwneud hynny er budd pennaf A,

(c) llywodraethwr, cyfarwyddwr neu reolwr cofrestredig(**1**) y sefydliad lle mae A dan gadwad neu'r person sy'n gyfrifol am y fangre a gymeradwywyd y mae A yn preswylio ynddi,

(d) y rheolwr achos tîm troseddwyr ifanc perthnasol,

(e) os yw'n wahanol i'r awdurdod lleol cyfrifol, awdurdod lleol yr ardal y mae A dan gadwad ynddi, ac

(f) unrhyw berson arall y tybia'r awdurdod lleol cyfrifol y dylid rhoi copi o'r adroddiad iddo, o ystyried asesiad R.

### Cyngor a chymorth arall

**9.** Wrth wneud trefniadau yn unol ag adran 97(3)(b) o Ddeddf 2014 ar gyfer rhoi cyngor priodol a chymorth arall ar gael i A, rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol sicrhau—

(a) bod y trefniadau—

(i) yn briodol, o ystyried oedran a dealltwriaeth A, a

(ii) yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol A ac unrhyw anabledd sydd gan A(**2**), a

(b) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o ystyried oedran a dealltwriaeth A, fod A yn gwybod sut i ofyn am gyngor priodol a chymorth arall gan yr awdurdod cyfrifol

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
21 Hydref 2015

---

(**1**) Hynny yw, person a gofrestrwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel rheolwr cartref diogel i blant.

(**2**) Diffinnir "anabledd" yn adran 3(5) o Ddeddf 2014.